PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 28 Gorffennaf 14, 2022 50c.



# Pebyll y cyfarfod

## Dau Dabernacl yn sefydlu'r Parchedig Dylan Rhys Parry

Er bod y Parchedig Dylan Rhys Parry wedi bod yn weinidog ar Ofalaeth Glannau Ogwr ers dros flwyddyn, ac wedi hen ennill ei le yn ein plith, methwyd hyd yma cynnal cyfarfod i'w sefydlu yn swyddogol. Ond o'r diwedd, ar nos Iau, 9 Mehefin, daeth cyfle i ni ddathlu'r achlysur o gael gweinidog newydd. Fe ddaeth cynulleidfa dda ynghyd i'r



Tabernacl Pen-y-bont gan gynnwys nifer oedd wedi teithio o'r gogledd. Wedi'r rhannau arweiniol yng ngofal y Parchedig Hywel Wyn Richards a Tom Price, cafwyd eitem gerddorol gan Kevin a Sheila Adams. Y cyn-weinidog, y Parchedig Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, oedd â gofal sefydlu Dylan, gyda chymorth Hugh Thomas a'r Parchedig Ronald Williams (gweinidog Dylan yng Nghaernarfon). Croesawyd ar ran y ddau Dabernacl gan y Parchedig Robin Samuel a Tom Price. Cafwyd neges bwrpasol gan y Parchedig Carwyn Siddall, ffrind agos i Dylan, ac roedd Carwyn hefyd wedi cyfansoddi emyn yn arbennig ar gyfer yr achlysur.

Wedi'r oedfa, roedd cyfle i gymdeithasu a mwynhau lluniaeth ysgafn yn y neuadd. Diolch yn fawr i bawb a weithiodd yn galed i sicrhau llwyddiant y noson, ac edrychwn ymlaen at arweiniad Dylan am flynyddoedd i ddod. Wrth groesawu Dylan, cyflwynodd Tom ddau englyn a luniwyd ganddo'n arbennig ar gyfer yr achlysur. Dyma nhw:

Duw welodd ddoniau Dylan, – a'i annog
I weini'n ei winllan.
I ni rwy ti yn llawn tân,
Â'i ynni yn dy anian.

Ni'n dwli ar ein Dylan,– un dawnus
Un doniol, diffwdan,
Cerddor, hoff o'i gôr a'i gân,
Yn glir, just cofia'r glorian.




Cafodd y 300 o gynulleidfa yn Theatr yr Halliwell eu cyfareddu gan Gyflwyniad Undeb 150 yng Nghaerfyrddin. Roedd rhan gyntaf y cyflwyniad ar fideo oedd yn dangos Gwilym Hiraethog (Dafi Davies) Llywydd cyntaf yr Undeb, ar y tren stêm i Gaerfyrddin yn sôn wrth cyd-deithiwr (Rachael Garside) am ei obeithion am y Cyfarfodydd Blynyddol cyntaf ym 1872. Yna, fe gamodd i'r llwyfan i gwrdd â'r Llywydd heddiw, y Parchg Beti-Wyn James. Bu plant a phobol ifanc hefyd yn rhan o'r cyflwyniad dramatig. Bydd adroddiad llawn a mwy o luniau yn *Y Tyst* maes o law.

# Beibl i bawb

Llongyfarchiadau mawr iawn i Arfon Jones ar ennill gradd DD, er anrhydedd, gan Goleg y Brifysgol Bangor. Anrhydeddwyd Arfon gyda'r ddoethuriaeth – ar ddydd Llun 4 Gorffennaf – oherwydd ei waith eithriadol yn cyfieithu'r Beibl i Gymraeg dros gyfnod o 17 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw gweithiodd yn ddygn, weithiau ddydd a nos, yn ymaflyd yn fyfyrgar a gweddïgar dros adrannau o'r Beibl a hynny mewn cydweithrediad â Chymdeithas y Beibl a charedigion Gobaith i Gymru. Y mae ganddo'r ddawn arbennig i ymdrin â manylion a chanolbwyntio yn ddiflino am gyfnodau hir. A oes unrhyw un yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n fwy cyfarwydd â gair Duw ac wedi ei ddarllen mor aml ag ef? Go brin. Gweledigaeth Arfon i gychwyn oedd y byddai'r testun yn ymddangos ar y we yn unig, ond yn y diwedd ildiodd i'r galw cynyddol fu i'w gyhoeddi fel cyfrol bapur.



Daeth Arfon i ffydd ar ddiwedd ei arddegau o dan arweiniad dyner ei weinidog y Parchg Arthur Jones a thrwy gydol ei oes, trwy ddrycin a hindda bu'n ffyddlon i'r Arglwydd ac i waith Ei Deyrnas. Fel yn hanes y proffwyd Jeremeia cynheuwyd tân yn ei esgyrn i gyhoeddi'r Efengyl achubol doed a ddelo. Ers degawdau y mae'r Arglwydd wedi rhoi baich enfawr ar galon Arfon dros ieuenctid a phobl ifanc Cymru. Ei ddyhead mawr yw gweld adnewyddiad ysbrydol ymhlith ein hieuenctid gan weld miloedd yn dod i ffydd yn yr Arglwydd Iesu.

Y mae wedi gweithio i'r perwyl hwn trwy gydol ei oes gan weddïo, pregethu, annerch, trafod, trefnu gweithgareddau, paratoi llenyddiaeth ac adnoddau a chyfieithu caneuon Cristnogol ymhlith pethau eraill. A hyn yn bennaf a'i hysgogodd i wneud cyfieithiad newydd o'r Beibl mewn Cymraeg cyfoes. Sylweddolai bod ieithwedd y Beibl Cymraeg Newydd yn anodd i ieuenctid ac o ganlyniad fod llawer ohonynt yn defnyddio Beiblau Saesneg. Y mae beibl.net wedi llenwi bwlch mawr yn ein llenyddiaeth Gristnogol ac wedi agor gair Duw i lawer o bobl. Un o'r datblygiadau annisgwyl yw bod rhai Cristnogion yn eu 80au a'u 90au yn defnyddio beibl.net gan ddweud ei fod wedi goleuo rhannau tywyll o'r ysgrythur gan eu gwneud yn llawer mwy dealladwy, yn enwedig yn yr Hen Destament.

Dywed Arfon yn gyson nad traddodiad yw Cristnogaeth ond perthynas fyw, rhwng Duw a'i bobl trwy yr Arglwydd Iesu. Fe ddyfynna yn aml bennill Dafydd Morris:

N'ad im fodloni ar ryw rith
o grefydd, heb ei grym,
ond gwir adnabod Iesu Grist
yn fywyd annwyl im.



Y mae Arfon a'i deulu, Rachel, Carys, Seren a Ryan yn aelodau gwerthfawr yn eglwys Annibynnol Ebeneser, Caerdydd, ers degawdau ac y mae wedi bod yn fraint aruthrol ei gael yn gydaelod a diacon ymroddgar yn ein plith.

Felly, llawenhawn gydag ef yn ei anrhydedd. Diolchwn i'r Arglwydd amdano, am ei gyfeillgarwch a'i ostyngeiddrwydd ac am y gwaith a gyflawnodd yn enwedig yn y Gymry Gymraeg tros ei Waredwr, Iesu Grist.

**Alun Tudur**

# YR ANGEN AM WEDDI
## Salm 138

'Pa eisiau sydd i mi weddïo am fy mara beunyddiol; byddaf yn ei gael p'un a weddïaf amdano ai peidio,' meddai dyn ifanc wrthyf rywdro. 'Efallai y byddwch,' meddwn innau. 'Ond y mae'n amheus gennyf a fydd yn gwneud llawer o les i chi.' Y mae dwy ffordd o wneuthur popeth: ffordd faterol a ffordd ysbrydol. Fe ganiatâ Duw ein bara beunyddiol inni p'un a fyddwn yn gweddïo amdano ai peidio, fel y mae'n glawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn a pheri i'w haul godi ar y drwg a'r da. Yr hyn a wnawn wrth weddïo am ein bara beunyddiol a diolch amdano ydyw cydnabod daioni Duw a derbyn ei ddaioni'n ddiolchgar. Mater o'n perthynas ni a Duw ydyw.

'Mae 'nhad yn dathlu ei ben-blwydd heddiw ac yr wyf am brynu anrheg ben-blwydd iddo,' meddai merch fach wrth ei chyd-ddisgyblion. 'Gan bwy gewch chi bres i'w brynu?' gofynnodd un ohonynt. ' 'Gan fy nhad wrth gwrs,' atebodd hithau. A dyna'r union berthynas sydd rhyngom ni a'n Tad nefol. A dyna'r union beth a gydnabyddir gennym wrth weddïo am ein bara beunyddiol, sef mai pobl heb ddim ydym ond fel y byddwn yn derbyn ganddo Ef. Ni fuaswn yn dy geisio Di oni bai i Ti eisoes fy nghael gweddïai Pascal. Mewn deisyfiadau diolchgar a hyderus yr ydym mewn gwirionedd yn cydnabod fod Duw yn Dduw,' meddai Luther.

Gan hynny, y mae gofyn a ddylem weddïo am ein bara beunyddiol yn golygu gofyn cwestiwn mwy o lawer, sef a ydym yn credu bod yna Dduw ar yr Hwn yr ydym yn dibynnu? Rhodd gras Duw yw popeth a feddiannwn ni, rhodd ddihaeddiant, ac na ellir ei haeddu. Am hynny, diolchgarwch yw sylfaen pob gwir addoliad.

Nid os byddwch yn gweddïo a ddywedodd yr Iesu ond, 'Pan weddïech.' Yr oedd Ef yn cymryd yn ganiataol fod dynion yn gweddïo.

**GWEDDI:** Hollalluog Dduw, yn yr hwn yr ydym yn byw yn symud ac yn bod, yr wyf yn cydnabod mai ohonot Ti a thrwot Ti ac i Ti y mae pob peth. I Ti y byddo'r gogoniant yn dragwyddol. Amen.

(allan o'r gyfrol *Ar Ddechrau Dydd*, T. Glyn Thomas.)



Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 14 2022 RHIF 72

# Cymrodoriaeth er Anrhydedd i gyn-gaplan yr heddlu a darlledwr

Mewn seremoni raddio a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ddechrau Gorffennaf, urddwyd y Parchedig Tom Evans yn Gymrawd er Anrhydedd o Brifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant.

Mae Tom Evans yn gyn-aelod o staff Coleg y Drindod, Caerfyrddin; ymunodd â'r Adran Ddiwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol yn 1992 cyn cael ei benodi i swydd Cyfarwyddwr y Ganolfan Dysgu Gydol Oes, ac wedi hynny'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr hyd ei ymddeoliad yn 2008.

Wrth gyflwyno Tom, meddai Gwilym Dyfri Jones, Profost Campysau Caerfyrddin a Llambed: 'Mae Tom bob amser wedi bod yn gyfathrebwr cryf ac effeithiol. Mae'r gallu hwn i gyfathrebu ag eraill – i ddewis eich geiriau'n ofalus, i ddeall eich cynulleidfa a chysylltu â nhw ar yr amser a'r lle iawn, i allu cydymdeimlo ag eraill ac i rannu barn mewn ffordd glir, gredadwy a dilys – wedi bod wrth galon ei yrfa lwyddiannus. Mae cyfathrebwyr hynod effeithiol hefyd yn wrandawyr da iawn, a dyma, byddwn i'n dadlau, yw cryfder mwyaf Tom. Mae bob amser wedi darparu clust anfeirniadol sy'n gwrando ar bawb, ac mae'n siarad â phawb mewn iaith y gallant ei deall.'

Wrth dderbyn ei gymrodoriaeth, dywedodd Tom: 'Mae'r brifysgol wedi rhoi'r fraint aruthrol i mi o fod yn gymrawd o'r coleg a'r brifysgol hon. Mae gennyf hoffter aruthrol o'r sefydliad hwn, y brifysgol, ei staff a'i is-ganghellor. Rwyf wedi cael cyfoeth o brofiadau yma, ac yn ddiau buasai fy mywyd yn dlotach pe na bawn wedi dod i'r Drindod.'

Manteisiodd Tom hefyd ar y cyfle i gynnig rhywfaint o gyngor i'r rhai oedd yn graddio yn y seremoni. Ychwanegodd:

'Rydych chi eisoes wedi clywed bod hwn yn un cam i mewn i'ch dyfodol; mae llawer mwy o gamau a chamau dysgu i'w cymryd eto yn eich bywyd. Fe welwch y geiriau "Trawsnewid addysg, trawsnewid bywydau" o gwmpas y campws; heddiw, chi yw canlyniad yr union weledigaeth honno. Ond peidiwch ag ystyried bod eich addysg yn gyflawn. Parhewch i ddysgu ac i drawsnewid eich hunain er budd cymdeithasau'r dyfodol.'

Fel y dywedodd cyn Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed–Powys, Mark Collins QPM, sydd hefyd yn gymrawd yn y brifysgol, 'Mae ein swyddogion a'n staff yn gweld rhai digwyddiadau dirdynnol a gwirioneddol drasig, a phan fo pobl wir angen rhywun i wrando arnynt ar adegau pan fyddant yn ei chael hi'n anodd iawn, mae Tom bob amser wedi bod yno, ddydd neu nos. Mae wedi dod yn dipyn o ffigwr tadol i Heddlu Dyfed–Powys ac mae wir yn cyfoethogi lles yr heddlu.'

Ganed Tom yn Llundain a dychwelodd y teulu i sir Aberteifi yn gynnar yn y 1950au. Addysgwyd ef yn ysgolion cynradd Llwyn-y-groes a Betws Bledrws; Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan; Coleg Coffa, Abertawe; y Brifysgol Agored a Phrifysgol Cymru, Caerdydd.

Yn 1968, yn ystod ei flwyddyn olaf yn y coleg diwinyddol, gwasanaethodd Tom fel Myfyriwr Bugeilio yn Eglwys Gynulleidfaol Gymraeg y Tabernacl, Sgiwen, ac ar ei ordeiniad yn 1969 dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Eglwys Annibynnol Gymraeg Bethania, Y Tymbl Uchaf, Llanelli. Yn 1975 fe'i penodwyd gan Gymorth Cristnogol, i ddechrau i wasanaethu fel Ysgrifennydd Ardal Canolbarth Cymru a Gwent, ac yn 1987 daeth yn Ysgrifennydd Addysg Cenedlaethol yr elusen yng Nghymru.




Yn 1989 derbyniodd Tom swydd Uwch-gynhyrchydd yn Adran Grefydd BBC Radio Cymru, Llandaf. Yn ystod haf 1992 gwahoddwyd Tom i gymryd swydd Uwch-ddarlithydd Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, ac arhosodd yn y coleg hyd ei ymddeoliad yn 2008.

Ar ei ymddeoliad, gwasanaethodd Tom ar Gyfarwyddiaeth Dyslecsia Cymru a Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth Canser. Cyflawnodd y dyletswyddau hynny tan 2012, pan ddaeth yn gaplan gwirfoddol yr heddlu gyda chaplaniaeth newydd Heddlu Dyfed–Powys. Yn 2013, fe'i penodwyd yn Gaplan Arweiniol yr Heddlu Gwirfoddol, gan ddatblygu ac adeiladu tîm caplaniaeth aml-ffydd cryf o fewn yr heddlu, rôl y bu'n gwasanaethu ynddi tan ei 'ail' ymddeoliad yn 2021. Yn 2017, cydnabuwyd cyfraniad Tom i gaplaniaeth yr heddlu gan Uchel Siryf Dyfed ar y pryd.

Yn ystod ei gyfnod fel caplan, dyfarnwyd Tystysgrif Gwerthfawrogiad y Prif Gwnstabl a Chymeradwyaeth y Prif Gwnstabl ddwywaith i Tom am y gefnogaeth a rannodd gyda swyddogion a staff yn ystod nifer o brif ddigwyddiadau anodd.

Tra oedd yn gwasanaethu fel Caplan Arweiniol Gwirfoddol yr Heddlu, gwasanaethodd Tom ar Gyfarwyddiaeth Caplaniaeth Heddlu'r Deyrnas Unedig a oedd newydd ei ffurfio. Chwaraeodd ran allweddol wrth gael Caplaniaeth Heddlu'r Deyrnas Unedig i agor trafodaethau gyda Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, i sefydlu rhaglen astudio DPP a fydd yn galluogi caplaniaid yr heddlu ledled y Deyrnas Unedig, yn ogystal â chaplaniaid mewn Gwasanaethau Argyfwng Golau Glas eraill, i ennill tystysgrif ôl-raddedig, diploma ac, yn y pen draw, MA mewn caplaniaeth.

Yn dilyn trafodaethau rhwng Heddlu Dyfed–Powys ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gwahoddwyd Tom i ddrafftio cynllun caplaniaeth gwirfoddol ar gyfer Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru.

Ar ôl 'ymddeol' o gaplaniaeth yr heddlu, hyfforddodd Tom, ac mae bellach yn gwasanaethu fel Gwirfoddolwr Profedigaeth gyda CRUSE. Tom yw cadeirydd presennol Cymdeithas Undeb yr Eglwysi Annibynnol Cymraeg, Gorllewin Caerfyrddin.

Mae'n byw yng Nghaerfyrddin ac mae'n briod â Marilyn. Mae ganddynt ddwy ferch, Mererid ac Angharad, a nifer o wyrion.

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## GOFALAETH CYLCH LLANDEILO A'R ARFORDIR

## SWYDD CYNORTHWYYDD GWEINIDOGAETHOL

Gwahoddwn rai â diddordeb mewn hybu gwaith Cristnogol ac eglwysig i ymddiddori yn y swydd Cynorthwyydd Gweinidogaethol i wasanaethu yng Ngofalaeth Cylch Llandeilo a'r Arfordir.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos
**Cytundeb:** 3 blynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
**Cyflog:** Graddfa 25–30 (£25,913–£28,049) a chyfle i ymuno â Phensiwn EBC

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Dyddiad cau: 16:00, dydd Gwener, 12 Awst 2022
Rhagwelir y bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal ddydd Gwener, 9 Medi 2022

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – hedd.morgan@ebcpcw.cymru
ffôn – 02920 627 465
gan nodi: 'Swydd Cynorthwyydd Gweinidogaethol, Llandeilo, Myrddin'

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## HENADURIAETH MYRDDIN

## GOFALAETH Y GWENDRAETH

## SWYDD CYNORTHWYYDD GWEINIDOGAETHOL

Mae Henaduriaeth Myrddin, EBC, yn edrych i sicrhau person i weithio fel Cynorthwyydd Gweinidogaethol o fewn Gofalaeth y Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos
**Cytundeb:** 3 blynedd, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
**Cyflog:** Graddfa 25–30 Graddfa EBC (£25,913–£28,049) ynghyd â lwfans tŷ, lwfans car, costau, a chyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC

Mae'r swydd yn seiliedig ar ddatgeliad DBS boddhaol a dau eirda (dylai un ohonynt fod yn gyflogwr blaenorol).

Mae gan y swydd hon ofyniad galwedigaethol i ddeilydd y swydd fod yn Gristion ymroddedig ac yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
Dyddiad cau: 16:00, dydd Gwener, 12 Awst 2022
Rhagwelir y bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal ddydd Gwener, 9 Medi 2022

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – hedd.morgan@ebcpcw.cymru
ffôn – 02920 627 465
gan nodi: 'Swydd Cynorthwyydd, Gwendraeth, Myrddin'

## Cyrsiau Haf Coleg y Bala

Yn y poster, gwelir manylion y cyrsiau haf i blant a phobl ifanc yng nghanolfan Gristnogol Coleg y Bala. Os gwyddoch am rai fyddai'n hoffi bod yno ynghanol yr hwyl a'r dysgu yr haf hwn, yna rhannwch y poster ac anogwch nhw i fynd yno.

Bydd llawer o eglwysi o bob enwad yn trefnu i gyfrannu tuag at gostau'r plant a'r bobl ifanc o'u plith ar y cyrsiau hyn. Beth am i'ch eglwys chithau ystyried bendithio ein teuluoedd a'n plant yn y ffordd yma?

Mae rhagor o fanylion am weithgareddau'r Ganolfan ar gael ar y ddolen hon: Coleg y Bala - Rhaglen y Coleg neu gallwch gysylltu efo'r Ganolfan i archebu lle (manylion ar y poster).



# O'r Beibl: 8

**Cyfres ar gyfer astudiaeth bersonol neu fel grŵp**

## Y Gwynfydau (1)

Yn ddiweddar, deuthum o hyd i flog ar y we sy'n rhestru rhai o areithiau enwocaf a mwyaf dylanwadol hanes y ddynoliaeth. Roedd yn ddiddorol gweld pa areithiau gafodd eu cynnwys yn y rhestr. Yn eu plith yr oedd 'I have a dream' gan Martin Luther King, 'We shall fight on the beaches' gan Winston Churchill, yn ogystal ag araith John F. Kennedy pan gafodd ei urddo'n Arlywydd yr Unol Daleithiau. Heb os, pe bai Cymro wedi ysgrifennu'r blog hwn, byddai wedi ychwanegu 'Tynged yr Iaith' gan Saunders Lewis at y rhestr! Er hynny, beth wnaeth fy nharo fwyaf am y rhestr, oedd faint o sylw gafodd un araith gan y blogiwr: y Bregeth ar y Mynydd gan Iesu Grist. Yn wir, dywedodd yr awdur: 'No speech has been more pondered, more influential, or more quoted.'

Mewn gwirionedd, ni ellir gosod pregeth Iesu ar y mynydd ochr yn ochr ag areithiau eraill er mwyn eu cymharu â'i gilydd. Wedi'r cyfan, nid jyst geiriau dyn cyffredin yw'r rhain, ond geiriau Mab Duw. Ond does yna ddim dwywaith amdani, mae'r Bregeth ar y Mynydd wedi cael dylanwad enfawr ar bobl. Yn ddi-os, bu geiriau fel 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw' yn rhai arbennig o ddylanwadol. Mae'r rhan fwyaf o Gymry Cymraeg – hyd yn oed y rhai hynny nad ydynt yn Gristnogion – wedi clywed y geiriau hyn o'r blaen.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn astudio dechrau'r Bregeth ar y Mynydd gyda'n gilydd (Mathew 5:3–10). 'Y Gwynfydau' yw'r enw cyffredin a roddir ar eiriau cyntaf y Bregeth ar y Mynydd. Ond, cyn i ni astudio'r Gwynfydau, mae'n bwysig ein bod yn cael ychydig o gyflwyniad i'r bregeth fawreddog hon.

Y peth cyntaf a'r peth pwysicaf i'w nodi am y bregeth yw ei *chynulleidfa*. Hynny yw, pwy yw'r bobl y mae Iesu yn adrodd y geiriau hyn wrthynt? Cyn i Iesu ddechrau'r



Bregeth ar y Mynydd, mae Efengyl Mathew yn dweud y geiriau canlynol: 'Pan welodd Iesu y tyrfaoedd, aeth i fyny'r mynydd, ac wedi iddo eistedd i lawr daeth ei ddisgyblion ato. Dechreuodd eu hannerch a'u dysgu fel hyn' (Mathew 5:1,2).

Er bod yna dyrfaoedd o bobl yn dilyn Iesu, nid gyda'r tyrfaoedd y mae Iesu yn siarad yn y Bregeth ar y Mynydd. Yn hytrach, mae'n siarad yn uniongyrchol â'i ddisgyblion ei hun. Nhw yw'r rhai sydd wrth ei draed wrth iddo bregethu'r bregeth hon. Nid pregeth i'r rhai nad oedd yn ei ddilyn oedd y bregeth hon, ond pregeth i'r rhai oedd yn ei ddilyn yn barod ac oedd eisoes yn ddisgyblion iddo.

Mae'n bwysig deall arwyddocâd hyn. Oherwydd, ambell dro, mae pobl yn camddeall pwrpas y Bregeth ar y Mynydd gan feddwl fod Iesu – drwy adrodd y geiriau hyn – yn esbonio sut mae *dod* yn ddisgyblion iddo. Weithiau, mae pobl yn darllen y Gwynfydau gan feddwl mai rhyw 'brawf dinasyddiaeth' ydynt i weld pwy sy'n ddisgyblion i Iesu.

Ond, na. Nid telerau ynglŷn â sut mae *dod* yn Gristnogion yw'r Gwynfydau, ond esboniad sut mae byw fel disgyblion i Iesu *ar ôl* dod yn Gristnogion. Fel y gwelwn yn glir yn ystod yr wythnosau nesaf, mae pob Cristion i fod yn 'dlodion yn yr ysbryd', yn 'galaru', yn 'newynu ac yn sychedu am gyfiawnder', yn 'bur eu calon', yn cael eu 'herlid o achos cyfiawnder'. Nid pregeth i'r byd yn gyffredinol yw hon, ond pregeth i Gristnogion yn benodol.

Felly, os mai pregeth ar gyfer *disgyblion* Iesu yw'r Bregeth ar y Mynydd, sut ydym ni'n *dod* yn ddisgybl iddo fe yn y lle cyntaf? Mae hwn yn gwestiwn pwysig a dyma'r cwestiwn y dylem ei ystyried cyn dechrau astudio'r bregeth. Mae'r ateb i'r cwestiwn hwn yn cael ei roi gan Iesu rai adnodau cyn y Bregeth ar y Mynydd. Dyma'r geiriau cyntaf i Iesu eu hadrodd wrth iddo ddechrau ar ei weinidogaeth: 'Edifarhewch, oherwydd y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos' (Mathew 4:17).

Mae Iesu'n esbonio mai'r ffordd i ddod yn rhan o'i deyrnas, y ffordd i ddod yn ddisgybl iddo, y ffordd i ddod yn Gristion yw – yn syml – drwy *'edifarhau'*. Nid yw 'edifarhau' yn air cyfarwydd yn ein Cymraeg ni heddiw. Yn y Roeg wreiddiol, mae'r gair yn llythrennol yn golygu 'newid meddwl' neu 'newid cyfeiriad'. Yn ein hiaith gyfoes, y ffordd orau i esbonio beth mae edifarhau yn ei olygu yw gwneud tro pedol (*u-turn*). Mae fel petai ein bod ni'n mynd ar hyd y draffordd i'r cyfeiriad anghywir ac yna ein bod yn gwneud tro pedol ac yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Dyna beth yw ystyr edifarhau yn y Beibl. Mae Iesu'n pwysleisio mai'r ffordd i ddod yn Gristion yw drwy edifarhau.

Oherwydd, yn naturiol, rydym i gyd yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. Er mai Iesu yw'r Brenin, yn hytrach na byw ein bywydau iddo, mae pawb ohonom wedi anwybyddu Duw, wedi ei wthio i ymylon ein bywydau gan feddwl ein bod ni'n gallu byw hebddo a heb ei adnabod. Dyma'r cyfeiriad yr ydym i gyd yn ei wynebu yn naturiol. Ond mae Iesu'n dweud wrthym am edifarhau a newid cyfeiriad, i wneud tro pedol. Yn hytrach na pharhau i symud i ffwrdd oddi wrtho, mae eisiau i ni ddod ato. Mae eisiau i ni gredu ynddo: ei fod wedi marw dros ein pechodau ar y groes a'i fod wedi atgyfodi'n fyw ar y trydydd dydd.

Dyma'r ffordd i ddod yn ddisgybl i Iesu: drwy edifarhau a chredu ynddo. Dim ond ar ôl i ni wneud hynny y mae geiriau'r Bregeth ar y Mynydd yn uniongyrchol berthnasol i ni.

**Cwestiynau i feddwl amdanynt:**

- Beth sy'n dod i'n meddwl gyntaf pan glywn am y Bregeth ar y Mynydd?
- Ym mha ffordd y gall pobl gamddeall y bregeth hon?
- Beth mae'n ei olygu i 'edifarhau'? (Mathew 4:17)

*Gwilym Tudur*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 17 Gorffennaf, am 8yh**
Ymunwch â Huw Edwards yn fyw o Foliant y Maes yn y Sioe Frenhinol, Llanelwedd

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 17 Gorffennaf, am 7:30yb a 4.30yp**
Gosodiad newydd gan Gareth Glyn ar gyfer gwasanaeth y Cymun Bendigaid yng Nghadeirlan Bangor

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 17 Gorffennaf, am 12:00yp**
Oedfa sgwrs gyda Beryl Vaughan, Llanerfyl

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Ysgol Haf y Gweinidogion 2022

Am yr ail flwyddyn yn olynol Ysgol Haf undydd rithiol a gynhaliwyd eleni. Er mai ysgol undydd oedd hi, roedd yr arlwy a gafwyd yn gyfoethog iawn.

Agorwyd yr Ysgol Haf gyda defosiwn o dan arweiniad y Parchg Beti Wyn James. Cyfeiriodd at gerflun 'Angel y Cyllyll' sydd ar daith o amgylch y wlad fel rhan o'r ymgyrch yn erbyn troseddau cyllyll. Wrth wraidd ei defosiwn roedd Galatiaid 5:22–26, gyda'r pwyslais ar ffrwythau'r ysbryd, gan mai rhain sydd yn ein harfogi trwy gariad.

### Astudiaeth

Arweiniwyd ni yn y sesiwn Astudiaeth Feiblaidd yn gelfydd ac yn fedrus iawn gan y Parchg Gwilym Tudur. Ei destun oedd Colosiaid 1:15–23, ac yn ysbryd rhyngweithio rhithiol gofynnodd am wirfoddolwr i ddarllen ac ymatebodd y Parchg Mererid Mair, braf iawn gweld cydweithio ar y pryd a ddigwyddodd mewn modd mor naturiol. Aeth Gwilym ymlaen i drafod sut, yn ein cymdeithas orllewinol ni mae yna wastad rywbeth gwell na'r hyn sydd gennym, pethau fel ffonau symudol a hyd yn oed beiros! A oes angen *upgrade* ysbrydol weithian? Ond fel ysgrifennodd Paul at y Colosiaid, nid rhywbeth newydd sydd ei angen ar gyfer tyfu, ond dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn sydd gennym - sef Crist. Mae Iesu'n ddigonol oherwydd ef yw'r gorau a does dim angen *upgrade* o'r Iesu. Iesu yw'r goruchaf – y gorau. Dyfynnodd Gwilym ystod eang o ddarllen pellach yn amrywio o Abraham Kuyper i William Williams, Pantycelyn trwy ddyfynnu'r emyn, 'Iesu, Iesu rwyt ti'n ddigon.'



### Gwylio

Yna cawsom ddwy sesiwn fywiog o dan arweiniad Karen Owen. Enwyd y sesiwn gyntaf yn 'Yr oedd pobl yn gwylio.' Dechreuodd Karen drwy sôn am y broses sydd yn digwydd wrth gysidro goslef neu bwyslais mewn darlleniad neu wrth adrodd. Pan rydym yn rhoi pwyslais ar 'yr oedd pobl yn gwylio' mae'n golygu fod pobl yn fodlon dod i weld, yn mynd ati a gwneud ymdrech ac yn barod i weld rhywbeth sydd yn cydio ynddynt ac yn eu newid. Ond, os yw'r pwyslais yn newid 'Yr oedd y bobol yn gwylio ...' mae gan hyn awgrymiadau o eisiau cario straeon neu sisial 'ti 'di clywed?' Rhannodd Karen ei phrofiadau o'i gwaith ym Mhenygroes, Arfon. Datgelodd mai ei phwyslais oedd: adeiladu hyder y gymuned ffydd, codi calon, a dangos i bobl, yn enwedig ieuenctid bod gan bawb ddewis mewn bywyd. Yr oedd Karen felly yn ein hannog ac yn ein herio ni i feddwl ble mae ein pwyslais a'n blaenoriaethau ni.



### Sawl Herod?

Teitl yr ail sesiwn o dan arweiniad Karen oedd, 'Sawl Herod sydd?' Dechreuodd wrth ystyried y gair 'radical' a'i darddiad sydd yn golygu mynd yn ôl at ein gwreiddiau. Soniodd am nifer y cyfeiriadau at Herod a faint o Herodau gwahanol sydd yn ymddangos yn y Beibl, mae 50 cyfeiriad at 6 Herod gwahanol.

Yna gofynnodd y cwestiwn: pwy neu be yw'r Herod rydym ni yn ei wynebu yn ein gwaith a'n cymdeithas heddiw? Trwy hwylustod Zoom rhanwyd y cydgyfranwyr yn grwpiau trafod i rannu profiadau. Mwynhaodd pawb y cyfle hwn ac, yn enwedig ar ôl y cyfnodau clo roedd cyfraniadau Karen a Gwilym fel chwa o awyr iach.

### Ieuan Gwynedd

Gyda'r nos cynhaliwyd Darlith goffa R. Tudur Jones a Pennar Davies gan yr




Athro Emeritws E. Wynn James, Caerdydd ar y testun, 'Ieuan Gwynedd: Arwr Cenedl'. Croesawyd Wynn gan y Parchg Aled Jones a'r Parchg Beti-Wyn James. Ymunodd cynulleidfa helaeth dros Zoom, ac yn wir roedd hon yn ddarlith i'w chofio. Croniclodd Wynn fywyd Ieuan Gwynedd o'i eni hyd at ei farwolaeth. Mae'n syfrdanol cymaint oedd Ieuan Gwynedd wedi ei gyflawni mewn bywyd mor fyr – a hynny yn aml mewn amgylchiadau trist ac yng nghanol llesgedd. Mor gyfoes yw geiriau a safbwyntiau Ieuan Gwynedd – ac efallai dyna yw gwir fesur athrylith. Soniwyd am ei waith fel ymgyrchydd a newyddiadurwr, ei safiad cadarn yn erbyn Brad y Llyfrau Gleision, ei gred mewn hawliau merched a'i waith ym myd addysg. Cyfeiriwyd at sawl ffynhonnell am Ieuan Gwynedd gan gynnwys hon gan Ifan ab Owen Edwards:

> Nid anghofir Ieuan Gwynedd
> Tra bo Cymru wen yn bod.

Ar ddiwedd y ddarlith gofynnwyd sawl cwestiwn – ac yr oeddent i gyd yn rhai ysgolheigaidd ac yn cael ei gofyn mewn modd brwdfrydig ac angerddol oedd yn adlewyrchu'r chwilfrydedd oedd Wyn wedi ei greu yn ei ddarlith. Mawr ddiolch iddo.

### Epilog

Daeth yr ysgol undydd i ben gydag epilog o dan arweiniad Beti Wyn. Y gobaith at flwyddyn nesaf yw cynnal Ysgol Haf hybrid dros 3 diwrnod, wedi ei leoli yng nghanolbarth Cymru (gobeithio bydd neuadd Pantycelyn yn Aberystwyth ar gael, 10–12 Gorffennaf, 2023). Gwyliwch am gadarnhad o'r manylion maes o law.




**Euron Hughes**

## Barn Annibynnol

# JIWBILI

‘Ar y degfed dydd o’r seithfed mis pâr ganu’r utgorn ym mhob man.’ (Lefiticus 25:9). Gorchymyn gan Dduw, drwy Moses, o fynydd Sinai, mynydd y Deg Gorchymyn; mae cymaint â hynny o rym yn y cyhoeddiad.

Mae’n amserol, ar ddechrau’r seithfed mis fel hyn. Mae’n amserol o ran ei gynnwys hefyd, a’i neges yn un y mae gwir angen i ni ei chlywed. Uchafbwynt y gorchymyn yw cyhoeddi’r hanner canfed flwyddyn yn flwyddyn jiwbilî. ‘Pâr ganu’r utgorn ym mhob man.’ Pa well utgorn i gyhoeddi’r neges na’r *Tyst*? Fu erioed amser gwell i ddathlu jiwbilî i, a hwnnw mor wahanol i’r jiwbilî Prydeinig diweddar. Gŵyl i rannu cyfoeth yw’r un Feiblaidd, fel bod neb yn rhy dlawd, na neb yn rhy gyfoethog chwaith.



Mae dau o hanfodion y ffydd dan sylw, parchu’r ddaear a rhannu adnoddau yn deg.

### Parchu’r ddaear

Dyma gadarnhau gwirionedd sy’n dod i’r wyneb yn aml yn y Beibl, Duw piau’r ddaear, a ninnau’n atebol iddo amdani, ‘ar y seithfed flwyddyn bydd y wlad yn cael Saboth o orffwys.’ ‘Eiddo yr Arglwydd yw’r ddaear a’i llawnder.’ Mae’r byd yn drysor, i’n cynnal, ac i’w drosglwyddo i’r genhedlaeth nesaf. Mae’n ymddiriedaeth gysegredig.

Gwthiwyd yr egwyddor honno o’r neilltu. Y peth pwysicaf i’r corfforaethau mawrion yw gwneud elw, cymaint ag sydd bosib, gan sathru popeth sydd ar y ffordd, yn cynnwys pobl. Dyna sut mae’r peiriant cyfalafol yn gweithio, er mwyn trosglwyddo cyfoeth oddi wrth y rhai sydd â’i angen fwyaf i’r rhai sydd â’i angen lleiaf. Mae’r bwlch rhwng y cyfoethog a’r tlawd yn fwy nag erioed.

Mae’r cam-drin ar y ddaear yn peryglu ei gallu i gynhyrchu bwyd, ac yn wir i gynnal bywyd. Clywn yn gyson am yr awyr yn cael ei wenwyno, yr iâ yn toddi, sychder mawr, llifogydd, stormydd. Clywn fwy yn fuan am argaeledd dŵr, i’w yfed ac i dyfu cnydau. Arllwysir gwenwyn ar raddfa erchyll i afonydd y byd. Codir argaeau, sy’n golygu dadwreiddio’r boblogaeth, fel yn Nhryweryn ond ar raddfa llawer mwy fel rheol. Bernir bod hyd at 80 miliwn o bobl wedi eu dadleoli yn ystod yr ugeinfed ganrif i wneud lle i gronfeydd. Bydd y gronfa’n aml yn amharu ar lefelau a glendid y dŵr yn nes i lawr yr afon, ac ar dro mewn gwlad arall. Mae peryglu cyflenwad dŵr yn achosi tensiynau a drwgdeimlad , a hawdd y gall hynny droi’n rhywbeth gwaeth. Wedi’r cwbl mae dŵr yn un o’r hanfodion, o roddion mawr Duw, y siarsiwyd ni i edrych ar ei ôl.

### Parchu pobl

Ar adeg o gyni, y tlodion sy’n ei chael hi waethaf. Roedd gyrrwr tacsi yn India yn llygad ei le pan ddywedodd, ‘un diddordeb sydd gan y rhai sydd ar y brig, aros yno, beth bynnag yw’r pris i bobl eraill.’ Elw ariannol sy’n cyfri. Mae’r fam o Fecsico hithau yn dweud y gwir, ‘mae ein plant ni’n llwgu achos bod eu tir yn cael ei ddefnyddio, nid i dyfu ffa ac ŷd iddyn nhw, ond mefus i chi.’

Mae newid hinsawdd a’r poethi yn pentyrru caledi ar gymunedau tlotaf y byd. Yng ngeiriau un o benderfyniadau Undeb Caerfyrddin, ‘mae bron i 700 miliwn o bobl y mynd i’r gwely heb ddigon o fwyd, a mwy na 40 miliwn yn agos at newyn.’ Dyma sylw o golofn yn yr *Observer*: ‘Mae’r tra-chyfoethog wedi cael argyfwng coronofeirws ardderchog. I’r rhai yr oedd llawer ganddynt, fe roddwyd mwy.’ Bernir y crewyd biliwnydd newydd bob 30 awr dros gyfnod y pandemig.



### Darpariaeth Jiwbili

Ar yr hanner canfed flwyddyn, arhoswch, canwch yr utgorn. Pawb i fynd yn ôl i ble roedden nhw! Os bu raid i chi werthu cyfran o’ch etifeddiaeth, fe’i cewch yn ôl. Os bu’ch busnes yn llwyddiannus a chwithau’n casglu tir ac anifeiliaid, rhannwch eich cyfoeth, ewch yn ôl i ble roeddech. Does neb i fod yn rhy gyfoethog; does neb i fod yn rhy dlawd! Am flwyddyn fendigedig! Cyfiawnder y cael ei le. Fel y dywed Walter Brueggemann: ‘Cyfiawnder yw cael trefn ar beth sy’n eiddo i bwy, a’i ddychwelyd iddynt.’

Hir oes i’r jiwbilî! Parcha’r ddaear, trin hi’n garedig, parcha bawb o’th gwmpas, cod nhw ar eu traed. Paid â manteisio ar neb, trafoda nhw’n dyner. ‘Ofna yr Arglwydd dy Dduw.’ (adnod 38) Felly y byddi yn ofni dy Dduw, drwy ofalu’n fwyn am y ddaear a gwasanaethu dy gymydog. Y rhai sydd wedi ymgyfoethogi mewn hanner canrif, rhannwch yr elw. Y rhai sydd yn dlotach, derbyniwch eich siâr yn ôl. Mae ambell esboniwr yn barnu i’r jiwbili ddigwydd unwaith. Ond ym marn y rhan fwyaf delfryd ydyw, rhywbeth i anelu tuag ato. Mae’n egwyddor i’w thrysori, yn ethos i ddyheu amdani, yn ffordd o feddwl i’w chwennych.

**Dewi M. Hughes**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na’r tîm golygyddol.)


## Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

## Cwrs yr Haf

**Pobl y Ffordd ar dir Cymru**

Agweddau ar Hanes yr Eglwys

**7 o’r gloch, nos Fawrth 19 Gorffennaf**

ALED JONES, Cyfarwyddwr a Chydlynydd Hyfforddi’r Coleg

**Croeso cynnes iawn i bawb**

**Bydd pob cwrs ar-lein eleni**

Manylion pellach a dolenni Zoom oddi wrth parch.aled@yahoo.co.uk

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Saron

Ar y Sulgwyn cynhaliwyd parti arbennig yn Saron, Creunant er mwyn dathlu a llawenhau fod yr Ysbryd Glân wedi dod mewn grym ar y Cristnogion cyntaf. Gwelwyd yr achlysur fel cyfle i ymestyn allan ac i wahodd cyfeillion o'r gymuned leol i ymuno gyda ni. Cafodd pobl llond y lle o fwyd blasus yn cynnwys danteithion amrywiol o'r barbeciw. Roedd yno hefyd gastell gwynt er mwyn i'r rhai mwyaf egnïol yn ein plith fowndio'n llawen. Fe gafwyd hwyl a sbort gan bawb oedd yno. Y mae'r Ysbryd Glân yn dal i fod ar waith yn ein plith.

**William Rhys Locke**








**DATHLIAD**
Y Parch Gwylfa Evans

60 Mlynedd
ers ei
Ordeinio yn Weinidog
1962 - 2022

Eglwys Annibynnol
Gymraeg Harrow

**Prynhawn Sul**
**Medi 11 am 3.00pm**

Croeso cynnes i bawb




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*